# Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009

**2009 mccc 4**

*Swyddogaethau'r Comisiynydd*

## 6 Swyddogaethau'r Comisiynydd

(1) Swyddogaethau'r Comisiynydd yw —

(a) derbyn unrhyw gŵyn bod ymddygiad [[F1]Aelod o’r Senedd], ar adeg berthnasol, wedi methu â chydymffurfio ag un o ofynion darpariaeth berthnasol,

(b) ymchwilio i unrhyw gŵyn o'r fath yn unol â darpariaethau'r Mesur hwn,

(c) cyflwyno adroddiad i'r [[F2]Senedd] ar ganlyniad unrhyw ymchwiliad o'r fath,

(d) cynghori [[F3]Aelodau o’r Senedd] ac aelodau'r cyhoedd am y gweithdrefnau ynglŷn â gwneud cwynion ac ymchwilio i gwynion y mae paragraff (a) yn gymwys iddynt, a

(e) y swyddogaethau eraill a roddir gan adran 7.

(2) Ystyr “adeg berthnasol” yw adeg pan oedd y gofyniad o dan sylw mewn grym ond nid yw'n berthnasol a honnir bod yr ymddygiad o dan sylw wedi digwydd cyn i'r adran hon ddod i rym neu ar ôl hynny.

(3) Ystyr “darpariaeth berthnasol” yw —

(a) unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â'r canlynol—

(i) cofrestru neu ddatgan buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill,

(ii) hysbysiadau gan [[F3]Aelodau o’r Senedd] ynglŷn â'u haelodaeth o gymdeithasau,

(iii) cofrestru neu hysbysu unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud ag [[F3]Aelodau o’r Senedd] neu â phersonau sy'n gysylltiedig ag [[F3]Aelodau o’r Senedd].

(b) unrhyw benderfyniad gan y [[F2]Senedd] sy'n ymwneud â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill [[F3]Aelodau o’r Senedd],

(c) unrhyw God Ymddygiad a gymeradwyir gan y **[**[F2]Senedd**]** sy'n ymwneud â safonau ymddygiad **[**[F3]Aelodau o'r Senedd**]**,

(d) unrhyw benderfyniad gan y **[**[F2]Senedd**]** sy'n ymwneud â safonau ymddygiad **[**[F3]Aelodau o'r Senedd**]**, ac

(e) unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir yn y Rheolau Sefydlog (neu mewn unrhyw god neu brotocol a wneir odanynt) yn unol ag adran 36(6) o'r Ddeddf.

(4) Nid yw'n berthnasol a ddaeth darpariaeth berthnasol i rym cyn i'r adran hon ddod i rym neu ar ôl hynny.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn y Mesur wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), **Atod. 1 para. 3(8)** (ynghyd ag Atod. 1 para. 3(6)(7))

**F2** Geiriau yn y Mesur wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), **Atod. 1 para. 3(11)** (ynghyd ag Atod. 1 para. 3(6)(7))

**F3** Geiriau yn y Mesur wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), **Atod. 1 para. 3(9)** (ynghyd ag Atod. 1 para. 3(6)(7))

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 6 mewn grym yn unol â **a. 21(2)(b)**(3)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, Adran 6.